Ysgol Cybi

Hysbysiad Preifatrwydd – Gweithlu Addysg
(Sut yr ydym yn defnyddio gwybodaeth y gweithlu)

(The English version is underneath the Welsh version)

Mae gennym ddyletswydd dan ddeddfwriaeth diogelu data i brosesu data personol ynglŷn â'r bobl yr ydym yn eu cyflogi i weithio yn ein hysgol. Golyga data personol, neu wybodaeth bersonol, unrhyw wybodaeth ynglŷn ag unigolyn y gellir ei defnyddio i adnabod yr unigolyn hwnnw.

Mae'r hysbysiad hwn yn rhoi gwybodaeth i chi ynglŷn â'r data yr ydym yn ei gadw amdanoch, sut yr ydym yn ei ddefnyddio, eich hawliau mewn perthynas â'r data a'r mesurau diogelu sydd ar waith i'w amddiffyn. Mae'n rhoi gwybodaeth am gasglu a phrosesu gwybodaeth bersonol staff gan yr ysgol o'r cais nes i gyflogaeth ddod i ben.

Mae gweithlu'r ysgol yn cynnwys pawb a gyflogir i addysgu, neu a ymgysylltir fel arall i weithio, naill ai ar sail gyflogedig, dan gontract neu wirfoddol, yn yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi ei chofrestru fel rheolydd data gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Mae manylion llawn o'r cofrestriad ar gael ar gofrestr yr ICO o reolyddion data. Mae'r ysgol, fel y rheolydd data, yn gyfrifol am eich data personol.

Y categorïau o wybodaeth gweithlu yr ydym yn ei phrosesu:

- gwybodaeth personol (megis enw, dyddiad geni, rhif cyflogai neu athro, rhif yswiriant gwladol, hanes cyfeiriad a thystiolaeth hunaniaeth a hawl i weithio)
- nodweddion (megis ethnigrwydd neu aelodaeth o undeb llafur)
- manylion cyswllt (megis cyfeiriad, rhif ffôn a chyfeiriadau e-bost, a chysylltiadau argyfwng)
- gwybodaeth feddygol (megis cyflyrau iechyd, alergeddau neu feddyginiaeth sydd ei hangen a canlyniadau profion Covid-19 a gwybodaeth perthnasol)
- gwybodaeth contract (megis dyddiadau cychwyn, oriau gwaith, swydd, rolau a gwybodaeth am gyflog)
- gwybodaeth gyrru a cherbyd (megis dogfennaeth MOT ac yswiriant)
- gwybodaeth presenoldeb ac absenoldeb (megis y nifer o absenoldebau a rhesymau)
- cymwysterau, sgiliau, profiad a hanes cyflogaeth (a lle bo'n berthnasol, y pynciau yr addysgir)
- gwybodaeth am berfformiad
- deilliannau unrhyw weithdrefnau disgyblu ac/neu gwynion
- deilliant gwiriadau cofnod troseddol neu glirio diogelwch
- gwybodaeth gyllidol (gwybodaeth fancio)
- delweddau ffotograffig, gweledol a fideo, cofnodion clywedol, ffrydio'n fyw a recordiadau ar-lein a ffilm CCTV (at ddibenion dysgu, asesu, diogelwch ac adnabod)
- data ynglŷn â'ch defnydd o system wybodaeth a chyfathrebiadau'r ysgol.

Pam yr ydym yn casglu a defnyddio gwybodaeth y gweithlu

Rydym yn casglu a defnyddio gwybodaeth y gweithlu at y <u>dibenion</u> canlynol:

- i gynorthwyo â darpariaeth gwasanaethau addysg
- diogelu disgyblion
- galluogi tâl i'r gweithlu ysgol, a chefnogi tâl a chyfrifiadau pensiwn
- galluogi monitro salwch a chefnogaeth mewn amgylchiadau absenoldeb
- cwrdd â'r dyletswyddau statudol a roddir arnom gan Lywodraeth Cymru a Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran gwarchod iechyd y cyhoedd
- hwyluso recriwtio diogel a chydymffurfio â rhwymedigaethau diogelu
- cefnogi rheoli perfformiad effeithiol
- asesu effeithiolrwydd cyffredinol y gweithlu, ac adolygu pa mor effeithlon y mae'n cael ei adleoli
- llywio'r gwaith o ddatblygu ein polisïau recriwtio a dargadw
- caniatáu gwell modelu ariannol, cynllunio ac archwilio
- cysylltu â staff tu allan i'r ysgol os oes angen, neu gysylltu ag eraill sy'n wybyddus i chi lle'r ydych wedi darparu'r wybodaeth pan fyddai'n rhesymol i wneud hynny.

Ni fydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio at ddibenion nad ydynt yn gydnaws â pham y cafodd ei chasglu yn y lle cyntaf, oni bai ein bod yn ystyried yn rhesymol ein bod angen ei defnyddio am reswm arall a bod y rheswm hwnnw yn gydnaws â'r pwrpas gwreiddiol. Noder os gwelwch yn dda efallai y bydd rhaid i ni brosesu eich data personol heb i chi fod yn ymwybodol a heb eich caniatâd lle mae hyn yn ofynnol neu os caniateir hyn gan y gyfraith.

Rydym yn casglu ac yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol oherwydd bod gennym un o'r seiliau cyfreithiol canlynol dros brosesu (Erthygl 6 (UK GDPR)):

- i gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol
- i berfformio gorchwyl diddordeb y cyhoedd
- i berfformio contract

Yn llai cyffredin, gallwn hefyd ddefnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch lle:

- rydych wedi rhoi caniatâd i ni ei defnyddio mewn ffordd benodol
- rydym angen amddiffyn eich buddion pennaf (neu fuddion rhywun arall).

Os ydych wedi rhoi eich caniatâd i ni ddefnyddio eich data, gallwch dynnu'r caniatâd hwn yn ôl ar unrhyw amser.

Mae rhai o'r rhesymau a restrir uchod dros gasglu a defnyddio eich gwybodaeth bersonol yn gorgyffwrdd, a gall fod sawl sail sy'n cyfiawnhau defnydd yr ysgol o'ch data.

Os ydym yn prosesu unrhyw ddata categori arbennig, yn ogystal ag unrhyw un o'r seiliau cyfreithiol uchod, bydd prosesu yn angenrheidiol oherwydd bod un o'r amodau dan Erthygl 9 (UK GDPR) yn berthnasol. Mae hyn yn cynnwys (lle bo'n berthnasol) gwybodaeth ynglŷn â:

- hil, ethnigrwydd, credoau crefyddol a barn wleidyddol
- aelodaeth undeb llafur
- iechyd, gan gynnwys unrhyw gyflyrau meddygol, a chofnodion salwch

Rydym yn cymhwyso'r egwyddorion canlynol pan ddefnyddiwn wybodaeth bersonol

- prosesu'n gyfreithlon, yn deg ac yn dryloyw
- casglu at ddibenion penodol, eglur a chyfreithlon ('cyfyngiad pwrpas')

- yn ddigonol, perthnasol ac wedi ei chyfyngu i beth sy'n angenrheidiol
- yn gywir, a lle bo'n angenrheidiol, yn cael ei chadw'n gyfredol
- ei chadw mewn ffurf sy'n caniatáu adnabyddiaeth o wrthrychau data am ddim hirach na sydd angen
- yn cael ei phrosesu mewn ffordd sy'n sicrhau diogelwch priodol o'r data personol.

Sut yr ydym yn casglu gwybodaeth y gweithlu

Rydym yn casglu gwybodaeth bersonol drwy geisiadau am gyflogaeth, ffurflenni contract staff a ffurflenni casglu data cyffredinol staff. Mae data gweithlu yn hanfodol ar gyfer defnydd gweithredol yr ysgol / awdurdod lleol.

Mae'n bosib hefyd y byddwn yn casglu, storio a rhannu gwybodaeth bersonol gan gynnwys ffotograffau, delweddau a recordiadau clywedol drwy dechnolegau a ddefnyddir at ddibenion dysgu ar-lein a chyfathrebu â disgyblion, rhieni a'r gymuned ehangach. Gall hyn fod drwy dechnolegau, apiau a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol (megis Microsoft Teams, ClassDojo a Facebook).

Mae gennym systemau CCTV mewn lleoliadau allweddol er pwrpas diogelwch ac atal a chanfod trosedd. Arddangosir arwyddion clir yn eich hysbysu bod CCTV ar waith ac yn rhoi manylion i chi ynglŷn â gyda phwy i gysylltu am ragor o wybodaeth amdano. Byddwn ond yn datgelu delweddau CCTV i drydydd partïon at ddibenion diogelwch y cyhoedd ac i atal a chanfod trosedd.

Er bod y rhan fwyaf o'r wybodaeth y rhowch i ni yn hanfodol, darperir peth ohono ar sail wirfoddol. Er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data, byddwn yn eich hysbysu wrth gasglu a yw'n ofynnol i chi ddarparu gwybodaeth weithlu benodol i ni (ac os yw'n ofynnol, beth yw'r canlyniadau posib o beidio â chydymffurfio), neu a oes gennych ddewis.

Sut yr ydym yn cadw gwybodaeth yn gywir ac yn gyfredol

Rydym eisiau sicrhau fod eich gwybodaeth bersonol yn gywir ac yn gyfredol. Gofynnwn i staff gymryd camau rhesymol i sicrhau fod y data personol sydd gennym amdanoch yn gywir a'ch bod yn ein diweddaru ar unrhyw newidiadau. Byddwn yn diweddaru'r wybodaeth cyn gynted â phosib yn ein cofnodion papur ac electronig.

Dylech hefyd roi gwybod i ni os ydych yn anghytuno ag unrhyw beth yr ysgrifennir ar eich cofnod. Efallai na fyddwn bob amser yn gallu newid neu gael gwared â'r wybodaeth honno, ond byddwn yn cywiro anghywirdebau ffeithiol ac o bosib yn cynnwys eich sylwadau yn y cofnod i ddangos eich bod yn anghytuno gydag ef.

Sut yr ydym yn storio data gweithlu

Caiff data personol ei storio yn unol â'n *Polisi Diogelu Data Ysgolion.*

Rydym yn creu ac yn cadw ffeil gyflogaeth i bob aelod o staff. Cedwir yr wybodaeth sydd yn y ffeil hon yn ddiogel a chaiff ond ei defnyddio at ddibenion sy'n uniongyrchol berthnasol i'ch cyflogaeth.

Mae pa mor hir yr ydym yn cadw'r wybodaeth cyn y ceir gwared â hi'n ddiogel yn amrywio yn dibynnu ar y math o wybodaeth, gofynion cyfreithiol ac anghenion yr ysgol. Byddwn yn prosesu data staff yn ddiogel at y dibenion uchod am ddim hirach na sy'n angenrheidiol.

Yn gyffredinol, rydym yn cadw data gweithlu ysgol drwy gydol eich cyfnod o gyflogaeth ac am gyfnod penodol ar ôl i'r gyflogaeth orffen yn unol â'n *Cyfnodau Cadw Cofnodion Ysgolion*. Gellir cael mynediad at y ddogfen hon drwy gysylltu â'r Pennaeth.

Gyda phwy yr ydym yn rhannu gwybodaeth gweithlu

Lle mae'n angenrheidiol ac yn gyfreithlon, neu lle mae'n ofynnol dan rwymedigaeth gyfreithiol, byddwn yn rhannu gwybodaeth berthnasol gydag:

- ein hawdurdod lleol, Cyngor Sir Ynys Môn
- GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru)
- Llywodraeth Cymru
- cyrff rheoli (megis Estyn)
- heddluoedd
- y llysoedd
- yr wasg a'r cyfryngau

Mae hefyd yn gyfreithiol ofynnol i ni amddiffyn yr arian cyhoeddus yr ydym yn ei weinyddu a gallwn rannu gwybodaeth a ddarperir i ni gyda chyrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu arian cyhoeddus i atal a chanfod twyll ac anghysondeb.

Pam yr ydym yn rhannu gwybodaeth gweithlu yn rheolaidd

Nid ydym yn rhannu gwybodaeth ynglŷn â'n gweithlu gydag unrhyw un heb ganiatâd oni bai bod y gyfraith a'n polisïau yn caniatáu i ni wneud hynny. Lle gallwn, byddwn ond yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol y gweithlu ysgol fel y gallwn ddarparu gwasanaethau addysg neu gwrdd â gofyniad.

Mae'n ofynnol i ni rannu gwybodaeth ynglŷn â'n gweithlu ysgol yn rheolaidd gyda'n hawdurdod lleol, Cyngor Sir Ynys Môn, a Llywodraeth Cymru.

Mae'n bosib bydd angen i ni rannu gwybodaeth personol a chategori arbennig gyda'r Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu (Iechyd Cyhoeddus Cymru) ac mewn rhai achosion, Cyngor Sir Ynys Môn, er mwyn diogelu disgyblion, staff ysgol ac y gymuned ehangach rhag lledaeniad Covid-19. I ganfod mwy am y Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu, ewch i https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu

Llywodraeth Cymru
Cyfrifiad blynyddol o'r gweithlu ysgolion (CBGY) yw casgliad data statudol blynyddol o wybodaeth ynglŷn â'r gweithlu mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn gwybodaeth ar y gweithlu ysgolion yn uniongyrchol gan ysgolion ac awdurdodau lleol fel rhan o'r CBGY.

Cesglir yr wybodaeth ganlynol ar gyfer y CBGY:

- gwybodaeth bersonol a chategori arbennig amdanoch (megis rhif cyfeirnod athro (TRN), enw cyntaf, enw(au) canol, cyfenw, dyddiad geni, rhyw, grŵp ethnic, statws anabledd a rhif yswiriant gwladol)
- gwybodaeth ynglŷn â'ch tâl a chontractau (megis graddfeydd cyflog, lwfansau, tâl, a rheswm dros adael)
- gwybodaeth ynglŷn â'ch absenoldebau (gan gynnwys hyd a math o absenoldeb)
- gwybodaeth ynglŷn â sgiliau iaith Gymraeg

- gwybodaeth ynglŷn â'r pynciau yr ydych yn eu dysgu, math o swydd a rolau cysylltiedig.

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r CBGY, ewch i wefan Llywodraeth Cymru: https://llyw.cymru/cyfrifiad-blynyddol-or-gweithlu-ysgolion-cbgy-hysbysiad-preifatrwydd

I ganfod mwy am y gofynion casglu data a roddir arnom gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y data yr ydym yn ei rannu gyda nhw, ewch i https://llyw.cymru/casglu-data-a-rheoli-gwybodaeth-i-ysgolion

Sut yr ydym yn edrych ar ôl eich gwybodaeth

Dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae'n rhaid i ni amddiffyn unrhyw wybodaeth yr ydym yn ei chasglu gennych. Rydym wedi rhoi mesurau diogelwch priodol ar waith ac wedi gweithredu safonau a rheolyddion diogelwch i atal eich data personol rhag mynd ar goll, cael ei ddefnyddio neu ei gyrchu'n ddamweiniol mewn ffordd anawdurdodedig, ei altro neu ei ddatgelu.

Bydd yr wybodaeth yr ydych wedi ei darparu yn cael ei storio'n ddiogel. Bydd unrhyw wybodaeth bersonol nad oes ei hangen bellach, neu sydd bellach yn anghywir neu wedi dyddio, yn cael ei gwaredu'n ddiogel.

Rydym wedi rhoi gweithdrefnau ar waith i ddelio ag unrhyw ddigwyddiadau diogelwch data a byddwn yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr perthnasol sy'n ymwneud â'r digwyddiad lle mae'n ofynnol yn gyfreithiol i ni wneud hynny.

Eich hawliau diogelu data

Mae'r gyfraith yn rhoi nifer o hawliau i weithwyr ysgol i reoli *pa* wybodaeth bersonol sy'n cael ei defnyddio gennym, a hefyd *sut* y defnyddiwn yr wybodaeth. Mae'r hawliau hyn yn cynnwys:

Eich hawl i gael gwybod bod gwybodaeth amdanoch yn cael ei defnyddio

Eich hawl i fynediad – mae gennych hawl i ofyn i ni am gopïau o'ch gwybodaeth bersonol (gweler 'gwneud cais am fynediad at eich data personol' isod am fwy o fanylion).

Eich hawl i gywiro – mae gennych yr hawl i ofyn i ni gywiro gwybodaeth y credwch ei bod yn anghywir. Mae gennych hefyd yr hawl i ofyn i ni gwblhau gwybodaeth y credwch ei bod yn anghyflawn.

Eich hawl i ddileu – mae gennych yr hawl i ofyn i ni ddileu eich gwybodaeth bersonol dan amgylchiadau penodol.

Eich hawl i gyfyngu ar brosesu – mae gennych yr hawl i ofyn i ni gyfyngu'r prosesu sy'n digwydd i'ch gwybodaeth dan amgylchiadau penodol.

Eich hawl i wrthod prosesu – mae gennych yr hawl i wrthwynebu i'r prosesu sy'n digwydd i'ch data personol dan amgylchiadau penodol. Mae gennych yr hawl i wrthwynebu i brosesu sy'n digwydd i'ch data personol sy'n debygol o achosi, neu sydd yn achosi difrod neu drallod.

Eich hawl i gludadwyedd data – mae gennych yr hawl i ofyn i ni drosglwyddo'r wybodaeth y rhoesoch i ni i sefydliad arall, neu i chi, dan amgylchiadau penodol.

Dan rai amgylchiadau, mae gennych hefyd yr hawliau canlynol:

- i atal prosesu at ddibenion marchnata uniongyrchol
- i wrthwynebu i benderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn awtomatig
- i geisio iawndal, un ai drwy'r ICO neu drwy'r llysoedd.

Gwneud cais am fynediad at eich data personol

Dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gan staff yr hawl i wneud cais am fynediad at wybodaeth yr ydym yn ei chadw amdanynt. Adnabyddir hyn yn gyffredin fel "cais gan wrthrych y data". Mae hyn yn galluogi i chi dderbyn copi o'r data personol yr ydym yn ei gadw amdanoch ac i wirio ein bod yn ei brosesu'n gyfreithlon.

Fodd bynnag, ni allwn ganiatáu i chi weld unrhyw rannau o'ch cofnod sy'n cynnwys:

- gwybodaeth gyfrinachol ynglŷn â phobl eraill; neu
- gwybodaeth y mae gweithiwr proffesiynol yn tybio y bydd yn achosi niwed difrifol i les corfforol neu feddyliol chi neu rywun arall; neu
- os credwn y byddai rhoi'r wybodaeth i chi yn ein rhwystro rhag atal neu ganfod trosedd.

Er mwyn gwneud cais am eich gwybodaeth bersonol, gofynnwch i'r Pennaeth yn y lle cyntaf.

Byddwch yn derbyn copïau o'ch data personol o fewn cyfnod statudol o fis (neu os yw darparu eich data personol yn fater cymhleth, bydd hyn yn cael ei wneud cyn gynted ag sy'n rhesymol o fewn 3 mis).

Bydd eich data personol yn cael ei ddarparu i chi yn rhad ac am ddim, fodd bynnag, os yw eich cais yn amlwg yn ddi-sail, yn ailadroddus neu'n ormodol, bydd ffi rhesymol yn cael ei chodi. Fel arall, gallwn wrthod i gydymffurfio â'ch cais dan yr amgylchiadau hyn.

Cysylltiadau a rhagor o wybodaeth

Manylion yr ysgol fel y rheolydd data yw'r canlynol:

Enw'r Ysgol: Ysgol Cybi

E-bost:6603036_pennaeth.cybi@Hwbcymru.net

Rhif Ffôn:01407 883150

Cyfeiriad:Ysgol Cybi, Ffirdd Garreglwyd, Caergybi

Rydym hefyd wedi penodi Swyddog Diogelu Data Ysgolion drwy'r Awdurdod Lleol. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn, gan gynnwys unrhyw geisiadau i ymarfer eich hawliau cyfreithiol, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn defnyddio'r manylion yr amlinellir isod:

E-bost: dpoysgolionmon@ynysmon.gov.uk

Rhif ffôn: 01248 751833

Cyfeiriad: Gwasanaeth Dysgu, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW

Mae gennych yr hawl i wneud cwyn ar unrhyw amser i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), sef y rheoleiddiwr annibynnol dros ddiogelu data. Os oes gennych bryder neu gŵyn ynglŷn â'r ffordd yr ydym yn casglu neu'n defnyddio eich data personol, dylech godi eich pryder gyda ni yn y lle cyntaf fel y gallwn geisio datrys unrhyw broblemau.

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO):

E-bost: https://ico.org.uk/concerns/

Rhif ffôn: 0303 123 1113

Cyfeiriad: Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF

Mae cyngor ac arweiniad ar gael ar eu gwefan www.ico.org.uk

Newidiadau i'n Hysbysiad Preifatrwydd

Rydym yn cadw ein Hysbysiad Preifatrwydd dan adolygiad parhaus a byddwn yn rhannu unrhyw ddiwygiadau.

Ysgol Cybi

Privacy Notice- School Workforce
(How we use workforce information)

We have a duty under data protection legislation to process personal data relating to those people we employ to work at our school. Personal data, or personal information, means any information about an individual from which that person can be identified.

This notice gives you information about the data we hold about you, how we use it, your rights in relation to it and the safeguards that are in place to protect it. It provides information about the collection and processing of staff personal information by the school from application until cessation of employment.

The school workforce includes all those employed to teach, or otherwise engaged to work, either on a paid, contracted or voluntary basis, at the school.

The school is registered as a data controller with the Information Commissioner's Office (ICO). Full details of the registration are available via the ICO register of data controllers. The school as the data controller is responsible for your personal data.

The categories of workforce information that we process:

- personal information (such as name, date of birth, employee or teacher number, national insurance number, address history and proof of identity and right to work)
- special categories of data including characteristics information (such as ethnicity or membership of a trade union)
- contact information (such as address, telephone number and e-mail addresses, and emergency contacts)
- medical information (such as any medical conditions, allergies, required medication and Covid-19 test results and related information)
- contract information (such as start dates, working hours, post, roles and salary information)
- driving and vehicle information (such as MOT and insurance documentation)
- attendance and absence information (such as number of absences and reasons)
- qualifications, skills, experience and employment history (and, where relevant, subjects taught)
- performance information
- outcomes of any disciplinary and/or grievance procedures
- outcome of criminal record checks and security clearance
- financial information (banking information)
- photographic, visual and video images, audio records, on-line live streaming and recordings and CCTV footage. (for learning, assessment, safety and identity purposes)
- data about your use of the school's information and communications system.

Why we collect and use workforce information

We collect and use workforce information, for the following <u>purposes</u>:

- to assist in the provision of education services
- to safeguard pupils

- to enable the school workforce to be paid, and to support pension payment and calculations
- to enable sickness monitoring and to support in circumstances of absence
- to meet the statutory duties placed upon us by the Welsh Government and Public Health Wales with regard to protecting public health
- to facilitate safe recruitment and to comply with safeguarding obligations
- to support effective performance management
- to assess the overall effectiveness of the workforce, and review how efficiently it is being deployed
- to inform the development of our recruitment and retention policies
- to allow better financial modelling, planning and auditing
- to contact staff outside of the school if required, or to contact others known to you where you have provided the information, when it would be reasonable to do so.

The information will not be used for purposes that are not compatible with why it is gathered in the first instance, unless we reasonably consider that we need to use it for another reason and that reason is compatible with the original purpose. Please note that we may process your personal data without your knowledge or consent, where this is required or permitted by law.

We collect and use your personal information because we have one of the following legal bases for processing (Article 6 (UK GDPR)):

- to comply with a legal obligation
- to fulfil a contractual obligation
- to carry out a task in the public interest

Less commonly, we may also use personal information about you where:

- you have given us consent to use it in a certain way
- we need to protect your vital interests (or someone else's interests)

Where you have provided us with consent to use your data, you may withdraw this consent at any time.

Some of the reasons listed above for collecting and using personal information about you overlap, and there may be several grounds which justify the school's use of your data.

If we process any special category data, in addition to one of the legal bases above, processing will be necessary because one of the conditions under Article 9 (UK GDPR) applies. This includes information about (where applicable):

- race, ethnicity, religious beliefs and political opinions
- trade union membership
- health, including any medical conditions, and sickness records

We apply the following principles where we use personal information

- processed lawfully, fairly and in a transparent manner
- collected for specified, explicit and legitimate purposes ('purpose limitation')
- adequate, relevant and limited to what is necessary
- accurate and, where necessary, kept up to date

- kept in a form which permits identification of data subjects for no longer than is necessary
- processed in a manner that ensures appropriate security of the personal data.

How we collect workforce information

We collect personal information via applications for employment, staff contract forms and general staff data collection forms. Workforce data is essential for the school's / local authority's operational use.

We may also collect, store and share personal information including photographs, images and audio recordings via technologies that are used for on-line learning purposes and for communicating with pupils, parents and the wider community. This could be via technologies, apps and social media accounts (such as Microsoft Teams, ClassDojo and Facebook).

We have CCTV systems in key locations for the purposes of safety and the prevention and detection of crime. Signs are prominently displayed notifying you that CCTV is in operation and providing you with details of who to contact for further information about them. We will only disclose CCTV images to third parties for the purposes of public safety and the prevention and detection of crime.

Whilst the majority of information you provide to us is mandatory, some of it is provided to us on a voluntary basis. In order to comply with data protection legislation, we will inform you at the point of collection, whether you are required to provide certain workforce information to us (and if so, what the possible consequences are of not complying), or whether you have a choice.

How we keep information accurate and up to date

We want to make sure that your personal information is accurate and up to date. We ask that staff take reasonable steps to ensure that the personal data that we hold about you is accurate and that you update us of any changes. We will update the information as soon as possible both in paper and in electronic records.

You should also let us know if you disagree with something written on your record. We may not always be able to change or remove that information, but we'll correct factual inaccuracies and may include your comments in the record to show that you disagree with it.

How we store workforce data

Personal data is stored in line with our *Schools Data Protection Policy.*

We create and maintain an employment file for each staff member. The information contained in this file is kept secure and is only used for purposes directly relevant to your employment.

How long we keep the information before it is securely disposed of varies depending on the type of information, legal requirements and school need. We will process staff data securely for the above purposes for no longer than necessary.

We generally hold school workforce data throughout your period of employment and for a set period after the cessation of your employment in accordance with our *Schools Data Retention Schedule.* This document can be obtained by contacting the Headteacher.

Who we share workforce information with

Where necessary and lawful, or when required by legal obligation, we share relevant information with:

- our local authority, the Isle of Anglesey County Council
- GwE (School Effectiveness and Improvement Service for North Wales)
- Welsh Government
- regulatory bodies (such as Estyn)
- Police forces
- courts
- the press and media

We are also required by law to protect the public funds we administer and may share information provided to us with other bodies responsible for auditing or administering public funds in order to prevent and detect fraud and irregularity.

Why we routinely share workforce information

We do not share information about our workforce with anyone without consent unless the law and our policies allow us to do so. Where we can, we'll only collect and use the school workforce's personal information so that we can deliver education services or meet a requirement.

We are required to regularly share information about our school workforce with our local authority, the Isle of Anglesey County Council, and the Welsh Government.

We may be required to share personal and special category information with Test, Trace and Protect Service (Public Health Wales) and in some cases with the Isle of Anglesey County Council, in order to protect pupils, school staff and the wider community against the spread of Covid-19. To find our more about the Test, Trace and Protect Service, go to https://gov.wales/test-trace-protect

Welsh Government
The School Workforce Annual Census (SWAC) is an annual statutory data collection of information about the workforce in maintained schools in Wales. The Welsh Government receives information on the school workforce directly from schools and local authorities as part of the SWAC.

The following information is gathered for the SWAC:

- personal and special category information about you (such as teacher reference number (TRN), first name, middle name(s), surname, date of birth, sex, ethnic group, disability status and national insurance number)
- information on your pay and contracts (such as pay scales, allowances, remuneration, and reason for leaving)
- information on your absences (including absence length and type)
- information on Welsh language skills
- information on the subjects you teach, post type and associated roles.

For more information regarding the SWAC, please visit the Welsh Government website: https://gov.wales/school-workforce-annual-census-swac-privacy-notice

To find out more about the data collection requirements placed on us by the Welsh Government, including the data that we share with them, go to https://gov.wales/data-collection-and-information-management-for-schools

How we look after your information

Under data protection legislation, we must protect any information that we collect from you. We have put in place appropriate security measures and applied security standards and controls to prevent your personal data from being accidentally lost, used or accessed in an unauthorised way, altered or disclosed.

Information which you have provided will be stored securely. Personal information that is no longer needed, or has become inaccurate or out of date, is disposed of securely.

We have put in place procedures to deal with any suspected personal data breach and will notify you and any applicable regulator of a breach where we are legally required to do so.

Your data protection rights

The law gives school employees a number of rights to control *what* personal information is used by us, and also *how* it is used by us. Rights include:

Your right to obtain confirmation that information about you is being used

Your right of access - you have the right to ask us for copies of your personal information (please see 'requesting access to your personal data' below for more details).

Your right to rectification - you have the right to ask us to rectify information you think is inaccurate. You also have the right to ask us to complete information you think is incomplete.

Your right to erasure - you have the right to ask us to erase your personal information in certain circumstances.

Your right to restriction of processing - you have the right to ask us to restrict the processing of your information in certain circumstances.

Your right to object to processing - you have the the right to object to the processing of your personal data in certain circumstances. You have the right to object to processing of personal data that is likely to cause, or is causing, damage or distress.

Your right to data portability - you have the right to ask that we transfer the information you gave us to another organisation, or to you, in certain circumstances.

In certain circumstances, you also have the following rights to:

- prevent processing for the purpose of direct marketing
- object to decisions being taken by automated means
- seek redress, either through the ICO, or through the courts.

Requesting access to your personal data

Under data protection legislation, staff have the right to request access to information about them that we hold. This is commonly known as a “data subject access request”. This enables you to receive a copy of the personal data we hold about you and to check that we are processing it lawfully.

However, we can’t let you see any parts of your record which contain:

- confidential information about other people; or
- information a professional thinks will cause serious harm to you or someone else’s physical or mental well-being; or
- if we think that giving you the information may stop us from preventing or detecting a crime.

To make a request for your personal information, please ask the Headteacher in the first instance.

You will be provided with copies of your personal data within the statutory period of one month (or if providing your personal data is a complex matter, this will be done as soon as is reasonable within 3 months).

Your personal data will be provided to you free of charge, however, if your request is clearly unfounded, repetitive or excessive, a reasonable fee will be charged. Alternatively, we may refuse to comply with your request in these circumstances.

Contacts and more information

The following are details of the school as the data controller:

Name of School: Ysgol Cybi

E-mail: 6603036_pennaeth.cybi@Hwbcymru.net

Telephone:01407 883150

Address: Ysgol Cybi, Ffordd Garreglwyd, Holyhead

We have also appointed a Schools Data Protection Officer through the local authority. If you have any questions about this Privacy Notice, including any requests to exercise your legal rights, please contact the Schools Data Protection Officer using the details set out below:

E-mail: dpoysgolionmon@ynysmon.gov.uk

Telephone: 01248 751833

Address: Learning Service, Isle of Anglesey County Council, Council Offices, Llangefni, Anglesey, LL77 7TW

You have the right to make a complaint at any time to the Information Commissioner’s Office (ICO) who is the independent regulator for data protection. If you have a concern or complaint about the way we are collecting or using your personal data, you should raise your concern with us in the first instance, so that we can try to resolve any issues.

Information Commissioner's Office (ICO):

E-mail: https://ico.org.uk/concerns/

Telephone: 0303 123 1113

Address: Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF

Advice and guidance is available via their website www.ico.org.uk

Changes to our Privacy Notice

We keep our Privacy Notice under regular review and will share any revisions.